

## Pecyn i ddysgwyr

*Pecyn i siaradwyr Cymraeg newydd*

Datblygwyd y pecyn hwn gan Ganolfan Iaith Nant Gwrtheyrn gyda chefnogaeth Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Theatr Genedlaethol Cymru

## Holti

Gan Manon Wyn Williams



### Cynnwys

1. Cefndir
2. Crynodeb
3. 10 gair hanfodol
4. Iaith y ddrama
5. Mynegi barn
6. Môn
7. Gwranddo a darllen pellach



Mae **Holhti**, cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru, ar daith eleni yn ystod mis Hydref.

Cafodd y ddrama ei pherfformio yn Theatr Bro Alaw, Ysgol Uwchradd Bodedern, ger maes Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn yn ystod mis Awst.

Mae'r ddrama'n teithio i'r canolfannau yma yn ystod mis Hydref:

Galeri, Caernarfon	5 – 6 Hydref
Theatr Mwldan, Aberteifi	9 – 10 Hydref
Theatr y Lyric, Caerfyrddin	12 – 13 Hydref
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth	16 – 17 Hydref
ATRiuM, Prifysgol De Cymru, Caerdydd	19 – 20 Hydref

## 1. Cefndir

Mae **Holhti**, cynhyrchiad<sup>1</sup> Theatr Genedlaethol Cymru, ar daith eleni yn ystod mis Awst a mis Hydref.

Cafodd y ddrama ei pherfformio yn Theatr Bro Alaw, Ysgol Uwchradd Bodedern, ger maes Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn yn ystod mis Awst.

## Beth ydy 'Holhti'?

Drama air-am-air ydi **Holhti**. Mae'r ddrama yn archwilio<sup>2</sup> dadleuon o blaid ac yn erbyn<sup>3</sup> yr atomfa<sup>4</sup>, Wylfa Newydd. Mae'r atomfa yn bwnc llosg<sup>5</sup> sy'n holhti<sup>6</sup> pobl yr ynys. Manon Wyn Williams ydy awdur y ddrama. Mae Manon yn ddarlithydd sgriptio ym Mhrifysgol Bangor. Mae hi wedi creu sgript o gyfweiriadau go iawn gyda phobl leol.

<sup>1</sup> cynhyrchiad – production

<sup>2</sup> archwilio – to explore

<sup>3</sup> dadleuon o blaid ac yn erbyn – arguments for and against

<sup>4</sup> atomfa – nuclear power station

<sup>5</sup> bwnc llosg > pwnc llosg – hot topic

<sup>6</sup> holhti – to divide/to split

## Teulu yn dal eu tir

Mae'r ddrama hon yn sôn am frwydr un teulu o Fôn yn erbyn cwmni niwclear Horizon. Yn 2011, ceisiodd y cwmni brynu 65 erw o dir fferm Caerdegog, ger Cemaes oddi wrth y teulu hwn. Mae llawer o safbwyntiau<sup>7</sup> gwahanol o blaid ac yn erbyn Wylfa Newydd yn cael eu cyflwyno yn y ddrama.

## 1. Crynodeb

### Golygfa 1

Mae'r ddrama yn agor gyda safbwyntiau 3 cymeriad, Mae Gwenda yn sôn am wreiddiau<sup>8</sup> dwfn teulu Richard, ei gŵr, ar fferm Caerdegog. Mae hi'n dweud bod y teulu wedi byw ar y fferm ers canrifoedd<sup>9</sup>.

### Golygfa 2

Mae Gwenda a Richard yn esbonio bod cwmni niwclear Horizon wedi dangos diddordeb mawr yn fferm Caerdegog. Mae yn dweud bod y cwmni wedi ceisio gorfodi y teulu i werthu ei tir. Mae yn adrodd hanes datblygiad<sup>10</sup> y diwydiant niwclear ar Ynys Môn.

### Golygfa 3

Mae rhai o'r cymeriadau yn dweud bod y diwydiant niwclear wedi cael effaith niweidiol<sup>11</sup> ar y Gymraeg ar yr ynys. Mae rhai yn poeni am effaith mewnlifiad<sup>12</sup> gweithwyr o Loegr ac Iwerddon ar y Gymraeg. Mae rhai eraill yn croesawu mewnlifiad ac yn meddwl ei fod yn beth iach.

### Golygfa 4

Mae'r cymeriadau yn trafod cyfleoedd gwaith yn Wylfa Newydd. Mae llawer o bobl Ynys Môn o blaid creu swyddi ond yn erbyn ynni niwclear. Mae rhai o'r cymeriadau hefyd yn sôn am faterion cymdeithasol<sup>13</sup> fel diweithdra<sup>14</sup> a chyffuriau.

### Golygfa 5

Mae'r cymeriadau yn trafod y rhaglen 'Ynys Ynni', sef rhaglen Cyngor Ynys Môn i ddatblygu economi'r ynys a chreu swyddi. Maen nhw'n poeni am economi Ynys Môn. Mae rhai o'r cymeriadau yn dweud ei bod yn bwysig hyfforddi pobl leol i weithio yn Wylfa Newydd.

### Golygfa 6

<sup>7</sup> safbwyntiau – viewpoints

<sup>8</sup> wreiddiau > gwreiddiau – roots

<sup>9</sup> canrifoedd – centuries

<sup>10</sup> datblygiad – development

<sup>11</sup> effaith niweidiol – detrimental/damaging effect

<sup>12</sup> mewnlifiad – influx

<sup>13</sup> materion cymdeithasol – social issues

<sup>14</sup> diweithdra – unemployment

Mae'r cymeriadau yn trafod effeithiau posib Wylfa Newydd ar y diwydiant twristiaeth, y farchnad dai a gwasanaethau ac adnoddau'r ynys<sup>15</sup>, fel y gwasanaeth iechyd ac ysgolion. Mae Robot yn poeni bod yr atomfa yn difetha harddwch naturiol yr ynys.

### **Golygfa 7**

Mae'n esbonio'r broses o greu ynni niwclear mewn atomfa. Mae Gwenda'n sôn am frwydr ei theulu yn erbyn cwmni Horizon. Mae brwydr teulu Caerdegog wedi cael llawer o sylw gan y cyfryngau<sup>16</sup>.

### **Golygfa 8**

Mae'r cymeriadau yn pwysu a mesur<sup>17</sup> pa mor ddiogel neu beryglus ydy'r diwydiant niwclear. Maen nhw'n trafod Chernobyl a Fukushima ac yn poeni am wastraff a llygredd<sup>18</sup> niwclear.

### **Golygfa 9**

Mae'r cymeriadau yn trafod ynni 'gwyrdd', sef ynni adnewyddol<sup>19</sup> sy'n cael ei gynhyrchu gan y gwynt a'r môr. Mae rhai o'r cymeriadau'n flin bod Cyngor Ynys Môn yn erbyn codi melinau gwynt ond yn hapus i godi atomfa ar yr ynys.

### **Golygfa 10**

Mae Richard a Gwenda yn sôn am eu protest yn erbyn cwmni Horizon ac yn dweud bod y cwmni wedi gwrando arnyn nhw yn y diwedd. Maen nhw'n dweud bod y fferm yn bwysicach iddyn nhw nag arian.



<sup>15</sup> gwasanaethau ac adnoddau'r ynys – the island's services and resources

<sup>16</sup> cyfryngau – media

<sup>17</sup> pwysu a mesur – to weigh/to evaluate/to consider carefully

<sup>18</sup> llygredd – pollution

<sup>19</sup> adnewyddol – renewable

8 gair hanfodol

Teulu	Family
Pwerdy	Powerhouse
Cyfarfod	Meeting
Cyfrinachol	Confidential
Sgiliau	Skills
Hyder	Confidence
Cymuned	Community
Amaethyddiaeth	Agriculture



**3. Iaith y ddrama**

Mae'r ddrama yn seiliedig ar gyfweiliadau go iawn gyda phobl Ynys Môn. Mae iaith lafar<sup>20</sup> yn cael ei defnyddio yn y ddrama. Mae'r sgript yn llawn 'yms' ac 'ahs' ac mae'r cymeriadau yn siarad mewn tafodiaith<sup>21</sup>. Mae'r rhan fwyaf o'r cymeriadau yn siarad mewn tafodiaith ogleddol gan eu bod yn dod o Ynys Môn.

### Sut mae tafodiaith yn wahanol i iaith safonol<sup>22</sup>?

Dyma rai o'r gwahaniaethau rhwng tafodiaith ac iaith safonol:

1. Geirfa wahanol (ffurfiau anffurfiol a ffurfiol) e.e. 'hogia' yn lle 'bechgyn', 'trio' yn lle 'ceisio'
2. Ffurfiau tafodieithol gwahanol rhwng y Gogledd a'r De, e.e. fo/fe, rŵan/nawr
3. Defnyddio geiriau benthyg<sup>23</sup> Saesneg mewn brawddeg Gymraeg e.e. 'ffrij', 'jesd', 'cŵl'
4. Defnyddio seiniau gwahanol e.e. ella (efallai), 'ugian' (ugain)
5. Talfyrru geiriau e.e. 'lly (felly), 'u (eu), don i'm (doeddwn i ddim)



---

<sup>20</sup> iaith lafar – spoken language

<sup>21</sup> tafodiaith – dialect

<sup>22</sup> safonol – standard

<sup>23</sup> geiriau benthyg – loan words



## Tafodiaith y Gogledd

Mae geiriau sy'n cynnwys 'e', 'ai' ac 'au' yn tueddu i gael eu hynganu<sup>24</sup> fel y llythyren 'a' yng ngogledd-orllewin Cymru:

### Enghraifft 1

Gwenda: Ac, ym, wedyn beth bynnag, dyma fi'n **clwad** 'u **lleisia** nhw'n dod am tŷ a **don i'm** yn mynd i gynnig **panad** na dim byd iddyn nhw ...

### Enghraifft 2

Gwenda: A wedyn **odda chi'n** brwydro. O'n i'n **clwad** yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad o fewn yr ysgol pan **o'n i** yna. Ar yr iard **odd petha'n** newid. **Susnag odd** iaith yr iard ...

- clwad (clywed)
- lleisia (lleisiau)
- don i'm (doeddwn i ddim)
- panad (paned)
- odda chi (oeddech chi)
- o'n i (oeddwn i)
- odd (oedd)
- petha (pethau)
- Susnag (Saesneg)

## Tafodiaith y De

Mae un cymeriad yn siarad mewn tafodiaith ddeheuol, Mewn llawer iawn o dafodieithoedd deheuol, mae'r 'a', 'au', 'ai' ac 'ae' yn troi'n 'e':

### Enghraifft 1

**So shwd wt** ti'n **ca'l** gwres. **Nawr** gyda'r tegell gyffredin ti **jesd** yn rhedeg trydan trwy weiren a ffrithiant, ffrithiant yr **electrone** – **jesd** fel pan ti'n rwbio dy fys yn erbyn **rwbeth** ...

### Enghraifft 2

<sup>24</sup> hynganu > ynganu – to pronounce

Ond dwn i'm faint o blant gafodd y **drinieth** yna – mae'n amlwg fod **e'n** hollol arbrofol. Maen nhw'n dweud wrtha i, os faswn i'n sganio 'mhen, **byse fe** dal yno – **byse'r** fforiwm dal yno i'r fesur. **So** mae o dal mewn ffordd yn cael **effeth**.

### Enghraifft 3

Pan gafodd fy **mrawd-yng-nghyfreth** 'i ddarganfod fel y dyn mwyaf ymbelydrol ym **Mhryden** ar ôl Chernobyl. **Pan natho nhw** sganio **fe, gafon nhw** sioc ... peth odd – pan gafodd **e'r** allbrint, y brif ymbelydredd yn ei gorff **e ... ie**, Chernobyl oedd **e**, hynny yw, **odd e'n** digwydd byw yn Traws ... wrth gwrs y propaganda oedd bod **e** wedi dod o atomfa Traws.

- so (gair Saesneg – 'felly' yw'r gair Cymraeg)
- shwd wt ti'n ca'l gwres (ffordd dafodieithol o ddweud 'sut wyt ti'n cael gwres')
- nawr (mae deheuwr yn defnyddio 'nawr' ac mae gogleddwyr yn defnyddio 'rwan')
- jesd (gair Saesneg 'just')
- electrone – electronau
- rwbeth - rhywbeth
- y drinieth – y driniaeth
- byse fe dal yno... – buasai ef (tra bo gogleddwyr yn defnyddio 'o' a 'fo' i gyfeirio at 'ef' – 'him/it – mae'r deheuwr yn defnyddio 'e' neu 'fe')
- effeth – effaith
- fy mrawd-yng-nghyfreth – brawd-yng-nghyfraith
- ym Mhryden – ym Mhrydain
- pan natho nhw – pan wnaethon nhw
- fe gafon nhw – fe gawson nhw

### Bratiaith<sup>25</sup>

#### Beth ydi'r gwahaniaeth rhwng tafodiaith a bratiaith?

Tafodiaith = iaith sy'n perthyn i ardal arbennig

Bratiaith = Defnydd o eiriau Saesneg neu ddylanwad y Saesneg ar yr iaith Gymraeg

### Enghraifft 1

Mae cymeriad yn defnyddio cystrawen<sup>26</sup> a geiriau Saesneg wrth siarad Cymraeg:

mae o **rili rili** wedi **effeithio nhw** mwy na neb arall faswn i'n deud achos efo fi, dwi **'mond wedi bod yna dwy flynedd**. Dwi 'di bod efo'r cwmni **am pedair blynedd**.

- rili (gair Saesneg 'really') – mae'n bosib defnyddio 'ofnadwy' i bwysleisio rhywbeth

<sup>25</sup> bratiaith – slang

<sup>26</sup> cystrawen – syntax (the arrangement of words and phrases in a sentence)



- effeithio nhw (cystrawen Seisnig ‘affect them’) – ‘effeithio arnyn nhw’ sy’n gywir
- ‘mond wedi bod yna dwy flynedd (cystrawen Seisnig ‘I’ve only been there two years’) — ‘ers dwy flynedd’ sy’n gywir)
- Dw i ‘di bod efo’r cwmni am pedair blynedd (cystrawen Seisnig ‘I’ve been with the company for four years’) — ‘ers pedair blynedd’ sy’n gywir

### Enghraifft 2

Ac o’n i’n meddwl be be be fedra’ i neud. **Nath hi isda fi lawr** a mynd trw petha odd hi ‘di bod yn **meddwl am**.

Ti isio bod yn athrawes? W’t ti isio bod yn, ym, **accountant**?

Ac o’n i’n meddwl, **gosh** ma nhw’n **sowndio’n boring**. Nath hi ddeud

### Civil Enginirio.

Do’n i’m yn gwbod be odd o. Es i i Dinorwig am dipyn **ar profiad gwaith** a o’n i’n meddwl, waw, ma fa’ma’n **cwŵl, so nes i penderfynu** mynd amdani.

- Nath hi isda fi lawr (cystrawen Seisnig ‘She sat me down’) – ‘Mi/Fe wnaeth hi eistedd efo/gyda fi’ sy’n gywir
- meddwl am (cystrawen Seisnig ‘thought about’) – ‘meddwl amdany’n nhw’ sy’n gywir
- accountant (gair Saesneg) – ‘cyfrifydd’ ydi’r term Cymraeg
- gosh ... sowndio’n boring (geiriau Saesneg) – ‘swnio’n ddiflas’ ydi’r geiriau Cymraeg
- Civil enginirio (geiriau Saesneg) – ‘peirianeg sifil’ ydi’r term Cymraeg
- ar profiad gwaith (camdreiglo) – ‘ar brofiad gwaith’ sy’n gywir
- cwŵl (gair benthyc Saesneg) – mae ‘cwŵl’ yn cael ei ddefnyddio’n naturiol ar lafar
- so (gair Saesneg) – ‘felly’ ydi’r gair Cymraeg



- nes i penderfynu (camdreiglo) – ‘nes i benderfynu’ sy’n gywir

## 4. Mynegi barn

### Ymarfer 1

Mae'r ffin rhwng tafodiaith a bratiaith yn denau iawn. Mae llawer o Gymry yn derbyn geiriau benthg Saesneg fel geiriau tafodieithol gan eu bod yn eu defnyddio yn naturiol bob dydd. Ar y llaw arall, mae llawer o Gymry yn credu bod geiriau benthg Saesneg yn fratiaith ac yn lladd yr iaith Gymraeg.

**'Gwell Cymraeg slac na Saesneg slic'** ('It's better to speak slack Welsh than slick English')?

**Dych/Dach chi'n cytuno? Trafodwch mewn paru/grwpiau.**

### Ymarfer 2

Mae gorsaf bŵer niwclear y Wylfa yn bwnc sy'n hollti pobl Ynys Môn. Mae llawer o bobl o blaid yr orsaf am ei bod yn creu swyddi lleol i bobl leol. Mae llawer o bobl yn erbyn yr orsaf oherwydd eu bod yn poeni am yr amgylchedd a'r iaith Gymraeg.

**Beth ydy eich barn chi am ynni niwclear? Trafodwch mewn paru/grwpiau.**

Dyma rai ymadroddion mynegi barn defnyddiol:

- Yn fy marn i...
- Dw i'n credu bod... / Dw i ddim yn credu bod...
- Dw i'n cytuno bod... / Dw i ddim yn cytuno bod...
- Dw i o blaid...
- Dw i yn erbyn...
- Dw i'n teimlo bod...

## 5. Môn

Ymarfer Rhannu y dosbarth yn grwpiau bach i nodi unrhyw beth a wyddant am Ynys Môn cyn darllen.

Mae Ynys Môn yng ngogledd-orllewin Cymru. Ynys Môn ydi ynys fwyaf Cymru. Mae dwy bont yn cysylltu Ynys Môn gyda'r tir mawr, sef Pont Menai a Phont Britannia. Mae'r ddwy bont yn croesi'r Fenai. Mae'r ynys yn enwog am ei harfordir hardd. Mae gan Ynys Môn hanes diddorol iawn. Mae chwedl<sup>27</sup> Branwen o'r Mabinogi a chwedl Santes Dwynwen yn gysylltiedig ag<sup>28</sup> Ynys Môn.

Mae'r enw 'Ynys Môn' yn dod o'r enw Lladin, 'Mona'. Mae gan yr ynys sawl enw barddonol<sup>29</sup> arall: 'Ynys Dywyll' ('Shady'/'Dark Isle') oherwydd ei choedwigoedd sanctaidd<sup>30</sup> Celtaidd; 'Ynys y Cedairn' ('Isle of the Brave') am ei llysoedd brenhinol; a 'Môn Mam Cymru' am ei thir ffrwythlon<sup>31</sup>.

Enw arall am yr ynys ydy 'Gwlad y Medra'. Yn dilyn cwmp y diwydiant copr<sup>32</sup> yn Ynys Môn, roedd rhaid i lawer o bobl yr ynys chwilio am waith yn y chwareli llechi<sup>33</sup> ar y tir mawr. Yn ôl y sôn, roedd meistri'r chwareli<sup>34</sup> yn gofyn, 'Fedrwch chi wneud y gwaith yma?' ac roedd gweithwyr Môn yn ateb cyn pawb: 'Medra', medra'!' Yn sgîl hynny<sup>35</sup>, mae pobl Gwynedd yn cyfeirio at<sup>36</sup> Ynys Môn fel 'Gwlad y Medra'!



<sup>27</sup> chwedl – legend

<sup>28</sup> yn gysylltiedig â/ag – associated with

<sup>29</sup> barddonol – poetic

<sup>30</sup> choedwigoedd sanctaidd > coedwigoedd sanctaidd – sacred forests

<sup>31</sup> ffrwythlon - fertile

<sup>32</sup> cwmp y diwydiant copr – decline/collapse of the copper industry

<sup>33</sup> chwareli llechi – slate quarries

<sup>34</sup> meistri'r chwareli – quarry masters

<sup>35</sup> yn sgîl hynny – as a result of this/because of this

<sup>36</sup> cyfeirio at – refer to

## 6. Gwrando a darllen pellach

### Cyfweliadau pobl Môn am Wylfa Newydd yn sail drama

<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/40802302>

### Wylfa ddoe a heddiw

<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/35381280>

### Ymgyrch teulu Caerdegog

<http://cymdeithas.cymru/newyddion/rali-wylfa-b-brwydr-teulu-yn-frwydr-dros-gymunedau-cymraeg>

### Cefnogaeth i Wylfa B

<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/18483748>

### Y ddadl yn erbyn Wylfa B

<http://stop-wylfa.org/wp/?lang=cy>

### Richard Jones: Na i Wylfa B

<https://www.youtube.com/watch?v=AjyOfyIFgTQ>

### Ymweld ag Ynys Môn

<https://www.croesomon.co.uk/cy/>

<http://www.ynysmon.gov.uk/hamdden/twristiaeth-a-theithio/>

### Enwogion Môn

<http://www.bbc.co.uk/cymru/gogleddorllewin/safle/ynysmon/enwogion.shtml>



## Sibrwd

**Ap gan Theatr Genedlaethol Cymru sy'n sibrwd cyfieithiad yn eich clust.**

The app by Theatr Genedlaethol Cymru which whispers a translation in your ear.

**Mae'r ap Sibrwd ar gyfer ffonau symudol yn rhoi'r cyfle i gynulleidfaoedd theatr fwynhau perfformiadau mewn unrhyw iaith.**

The Sibrwd app which can be used on mobile phones gives theatre audiences the opportunity to enjoy performances in any language.

**Cafodd yr ap Sibrwd ei greu yn bennaf i roi mynediad i ddysgwyr a'r di-Gymraeg at ddramâu Cymraeg, ac i gyfoethogi eu profiad theatrig. Gan ddefnyddio clustffonau mae'r ap yn sibrwd**



**pytiau o eglurhad yn Saesneg, i gynnig cymorth wrth ddilyn yr hyn sy'n digwydd ar lwyfan trwy gyfrwng y Gymraeg.**

The app was created to enrich the theatrical experiences of learners and non-Welsh speakers. Using headphones, the app whispers snippets of explanations in English to offer assistance whilst following the drama itself on stage in Welsh.

**Mae'r ap ar gael am ddim i'w lawrlwytho ar gyfer iPhone ac Android.**

The app, which is free, is available to download on iPhone and Android.

*“Ar ôl gosod popeth yn ei le, eisteddais i lawr yn dal i deimlo braidd yn bryderus na fyddwn yn gallu gweithio'r ap. Yna, fel petai trwy hud a lledrith, wrth i oleuadau'r theatr bylu, dechreuodd llais mwyn sibrwd yn fy nghlust a chamodd y cymeriadau cyntaf ar y llwyfan. Ac am weddill y perfformiad, cyn gynted ag y byddwn yn dechrau meddwl tybed beth oedd yn digwydd ar y llwyfan, roedd y naratif yn rhoi digon o wybodaeth i mi allu dilyn y plot heb amharu dim ar y perfformiad. Dechreuais ymlacio, rhoi fy ffydd yn y dechnoleg, a mwynhau gwranddo. Ac am weddill y perfformiad doedd dim rhaid i mi gyffwrdd unrhyw fotymau, na throi unrhyw beth i ffwrdd nac ymlaen – ro'n i'n gallu gadael y cyfan i Sibrwd.”*

Am ddisgrifiad o brofiad Elaine Paton wrth ddefnyddio Sibrwd, darllenwch yr erthygl ddifyr hon: <http://ccqmagazine.com/plugged-sibrwd/>

**Canolfan Nant Gwrtheyrn**